



ADRODDIADAU ARHOLWYR TAG

**TAG (NEWYDD)
BUSNES
UG/Uwch**

HAF 2019

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Uned	Tudalen
Uned 1: Cyfleoedd Busnes	1
Uned 2: Swyddogaethau Busnes	4
Uned 3: Dadansoddi Busnes a Strategaeth Fusnes	8
Uned 4: Busnes mewn Byd sy'n Newid	12

BUSNES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 1: CYFLEOEDD BUSNES

Sylwadau Cyffredinol

Roedd y papur arholiad hwn yn hygyrch i bron pob ymgeisydd gan y cyflwynwyd amrywiaeth lawn o atebion. Ysgrifennwyd rhai atebion trawiadol ac arddangosodd ymgeiswyr allu i ennill marciau ar draws pob un o'r pedwar amcan asesu. Fodd bynnag, mae ennill marciau am gymhwyso at y senario a roddwyd (AA2) yn parhau i fod yn faes pryder.

Roedd yn dda gweld nifer o atebion rhagorol gan ymgeiswyr oedd wedi'u paratoi'n dda a arddangosodd eu gwybodaeth o gynnwys y fanyleb a defnydd effeithiol o amrywiaeth o sgiliau.

Roedd y rheini oedd â sgiliau rhifiadol da yn dueddol o ennill yr holl farciau oedd ar gael am sgiliau meintiol ond roedd cryn dipyn o dystiolaeth bod nifer sylweddol o'r garfan heb y sgiliau hyn. Roedd yn amlwg nad oedd nifer o'r ymgeiswyr wedi mynd â chyfrifiannell i mewn i'r aholiad ac achosodd hynny anawsterau wrth gyfrifo canrannau. Hefyd, roedd diffyg manwl gywirdeb yn amlwg wrth ymateb i dasgau rhifiadol a byddai'n gall i ymgeiswyr ddangos y gwaith cyfrifo yn eu holl gyfrifiadau.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

- Cw.1 (a)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi gwneud y dasg agoriadol ymateb i ddata yn alluog. Roedd y rhan fwyaf wedi nodi mai 30-39 oedd y grŵp oedran â'r canran uchaf o bobl oedd â thatwau yn y DU. Fodd bynnag, dim ond yr ymgeiswyr cryfaf nododd fod defnyddioldeb y data yn gyfyngedig, oherwydd na yw'r data'n nodi tueddiadau neu eu bod wedi dyddio.
- (b)** Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu cyflawni marciau llawn ar y cwestiwn hwn. Yr eithriadau oedd pan nad oedd gan ymgeiswyr gyfrifiannell neu pan oedd ymgeiswyr wedi camgyfrifo gyda defnydd anghywir o ganrannau.
- (c)** Roedd hwn yn gwestiwn hygyrch iawn. Dyma'r cwestiwn â'r ffactor hygyrchedd uchaf o 81% gan fod llawer o ymgeiswyr wedi cyflawni marciau llawn. Doedd rhai ymgeiswyr ddim wedi cymhwyso'r ateb at datwau. Nododd yr ymgeiswyr cryfaf fod anghenion yn gyfyngedig a bod chwantau'n anghyfyngedig ond doedd hyn ddim yn gyffredin mewn atebion.
- (ch)** Roedd mwyafrif uchel o'r ymgeiswyr yn gallu nodi nifer o ffactorau sy'n effeithio ar alw ac ac o ganlyniad roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi cyflawni marciau llawn ar gyfer AA1. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu rhywfaint o ddadansoddi ond roedd y cymhwyso at y diwydiant tatwau yn wannach.

(d) Gofynnodd y cwestiwn hwn am ddiffinio marchnad gloer. Yn gyffredinol roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn wannach oherwydd diffyg dysgu diffiniadau gan ymgeiswyr. O ganlyniad y cwestiwn hwn oedd â'r ffactor hygyrchedd isaf ond un. Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi nodi buddion gweithredu mewn marchnad gloer, e.e. gallu codi pris uchel, oedd yn amherthnasol.

(dd) Cafodd nifer o ymgeiswyr drafferth yn eu dull o drin y cwestiwn hwn gan arwain at ffactor hygyrchedd o 45.8% ar gyfer y cwestiwn. Roedd rhai ymgeiswyr wedi dangos dryswch ynghylch marchnad oligopolaidd. Roedd llawer wedi nodi bod marchnad oligopolaidd yn cynnwys 3-9 busnes mawr heb sylweddoli bod sawl busnes, ond bod ychydig yn dominyddu. Dangoswyd techneg arholiad wael gan nifer o ymgeiswyr drwy nodi gwrthwyneb e.e. bod gan oligopoli rwystrau uchel i fynediad, ond mae gan barlyrau tatŵ rwystrau isel i fynediad.

Cw.2 (a) Roedd bron pob ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn ond roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi naill ai gadael allan labelu cromlin y galw, lluniadu llinell ffit orau neu estyn cromlin y galw a arweiniodd at farc cymedrig o 0.9 a ffactor hygyrchedd o 43.9 ar gyfer y cwestiwn hwn.

Cw.2 (b) (i) Roedd hwn yn gwestiwn hygyrch iawn. Dyma'r cwestiwn â'r ffactor hygyrchedd uchaf ond un o 78.8% gan fod llawer o ymgeiswyr wedi cyflawni marciau llawn. Roedd yr ymgeiswyr hynny na chawsant farciau llawn naill ai heb gynnwys yr arian cyfred yn eu hateb neu heb gyfrifo'r gwahaniaeth yn y derbyniadau ar gyfer y ddau bris. Mae'n werth nodi bod gadael allan arwydd £ yn digwydd yn rhy aml ar safon UG. Cafodd y gwall hwn ei gosbi.

(ii) Rhoddodd bron pob ymgeisydd gynnig ar y cwestiwn hwn gyda marc cymedrig o 0.9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi nodi'r gostyngiad yn y derbyniadau o ganlyniad i'r newid yn y pris ond dim ond yr ymgeiswyr cryfaf gyfeiriodd at sensitifrwydd i bris ac elastigedd pris.

(c) (i) Gofynnodd y cwestiwn hwn am ddiffiniad o'r cysyniad o atebolrwydd anghyfyngedig/llawn. Y marc cymedrig ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 1. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi sylweddoli, mewn partneriaeth, y gellir mynd ag eiddo personol y perchennog yn achos dyled, ond dim ond yr ymgeiswyr cryfaf oedd yn gallu datblygu'r pwynt hwn.

(ii) Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi nodweddion allweddol Gweithred Partneriaeth o ran nodi cyfran o elw, rolau a chyfrifoldebau. Roedd y dadansoddi'n dueddol o ganoli ar atal dadleuon ac anghydfod. Roedd meysydd dadansoddi eraill yn wan. Nododd yr ymgeiswyr gwannaf fanteision ac anfanteision ffurfio partneriaeth yn hytrach na dadansoddi pwysigrwydd Gweithred Partneriaeth.

(ch) Roedd bron pob ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn gyda graddau amrywiol o lwyddiant a ddangosir gan y marc cymedrig o 5.3. Roedd gwybodaeth llawer o ymgeiswyr ynghylch ymchwil marchnata meintiol ac ansoddol yn gyfyngedig i ddata rhifiadol a data'n seiliedig ar farn yn eu tro.

Doedd yr ymgeiswyr hyn ddim yn gallu nodi a oedd yr ymchwil yn cynnwys cwestiynau agored neu gaeedig ac ni wnaethon nhw ddarparu enghreifftiau o ddulliau. Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf oedd yn sylweddoli bod dulliau ansoddol yn cynnwys grwpiau ffocws. Nododd llawer o ymgeiswyr holiaduron neu arolygon ar gyfer y ddau.

- Cw.3 (a)** Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn siomedig, gan arwain at farc cymedrig isel iawn o 0.4. Nododd rhai ymgeiswyr fod gan *SME* lai na 250 o weithwyr ond roedd llai o ymgeiswyr wedi nodi trosiant blynyddol o lai na 50 miliwn o ewros. Roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn wannach oherwydd diffyg dysgu diffiniadau gan ymgeiswyr.
- (b)** Yma roedd cymhwyso at y senario yn dda yn gyffredinol. Roedd y prif bwyntiau cymhwyso a nodwyd yn ymwneud â nifer y swyddi a gwerth y buddsoddiad. Roedd pwyntiau gwerthuso yn gryfach na'r dadansoddi o'r effaith. Roedd diffyg asesiad cyffredinol wedi'i ddarparu gan ymgeiswyr.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod ganddyn nhw'r holl gyfarpar angenrheidiol yn barod ar gyfer yr arholiad. Beiro du, pensil, pren mesur, rwber a chyfrifiannell i sicrhau cywirdeb wrth ymateb i dasgau rhifiadol.
- Roedd rhai sgriptiau prin yn ddarllenadwy a dylai canolfannau ystyried copiŵyr a chyfleusterau prosesu geiriau ar gyfer ymgeiswyr sydd â phroblemau llawysgrifen.
- O ganlyniad i bwyslais a osodwyd mewn cyfarfodydd *DPP* diweddar ar ennill marciau drwy ddeall yr amcanion asesu, mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y sgriptiau arholiad. Fodd bynnag, mae ennill marciau am gymhwyso at y senario a roddwyd (AA2) yn parhau i fod yn faes pryder.
- I sicrhau marciau gwybodaeth, rhaid i ymgeiswyr adolygu a dysgu diffiniadau yn llawn. Roedd y diffyg dysgu diffiniadau yn amlwg yn y cwestiynau ar farchnad gloer, nodweddion *SME*, atebolrwydd anghyfyngedig/llawn ac ymchwil marchnata meintiol ac ansoddol.

BUSNES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 2: SWYDDOGAETHAU BUSNES

Sylwadau Cyffredinol

Cyflwynwyd amrywiaeth lawn o atebion yn uned 2. Ysgrifennwyd rhai atebion trawiadol ac arddangosodd ymgeiswyr allu i ennill marciau ar draws pob un o'r pedwar amcan asesu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac ymgeiswyr yn ymwybodol o'r angen i ddarllen cwestiynau'n ofalus a rhoi sylw arbennig i eiriau gorchymyn. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod ymgeiswyr yn gwybod pryd mae gwerthuso'n cael ei ddisgwyl (mae geiriau allweddol yn cynnwys aseswch, ystyriwch, trafodwch a gwerthuswch) ac achosion lle nad yw'n cael ei ddisgwyl (mae geiriau allweddol yn cynnwys dadansoddwch ac esboniwch). Yn aml mae ymgeiswyr sy'n anwybyddu'r geiriau gorchymyn hyn yn gwastraffu amser gwerthfawr yn yr arholiad heb ennill marciau ychwanegol.

Mae'n debyg bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi defnyddio amser yr arholiad yn effeithiol ac wedi gallu neilltuo digon o amser i bob cwestiwn. O bryd i'w gilydd, roedd ymgeiswyr yn gadael cwestiwn allan neu'n rhoi atebion byr ond mae'n debyg bod hyn yn ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth yn hytrach na mater amser.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

- Cw.1 (a)** Gofynnodd y cwestiwn hwn am ddiffinio stoc clustogi/byffer. Yn gyffredinol roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn wannach oherwydd diffyg dysgu diffiniadau gan ymgeiswyr. O ganlyniad dyma'r cwestiwn oedd â'r ffactor hygyrchedd isaf ond un o 32.8%. Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr wedi nodi mai'r stoc clustogi yw'r maint o stoc sydd wedi'i ddal islaw'r lefel ailarchebu, roedd hynny'n anghywir.
- (b)** Roedd hwn yn gwestiwn hygyrch iawn. Dyma'r cwestiwn â'r ffactor hygyrchedd uchaf ond un o 69.1% gan fod llawer o ymgeiswyr wedi cyflawni marciau llawn. Roedd yr ymgeiswyr hynny oedd heb gael marciau llawn yn dueddol o nodi maint y stoc clustogi fel 2 000 o unedau yn hytrach nag 1 500 o unedau sy'n gywerth â'r lefel ailarchebu fel a nodwyd yn Cw.1.1.
- (c)** Roedd mwyafrif uchel o'r ymgeiswyr yn gallu nodi buddion a phroblemau cael gormod neu rhy ychydig o stoc gan arwain at farc cymedrig o 5.9 am y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu rhywfaint o ddadansoddi effaith dal gormod neu rhy ychydig o stoc ond roedd y gwerthuso'n wannach. Dangoswyd techneg arholiad wael gan nifer o ymgeiswyr drwy nodi gwrthwyneb e.e. mae cael gormod o stoc yn cynyddu costau busnes ond mae cael rhy ychydig o stoc yn lleihau costau warws.

- Cw.2 (a)** Roedd hwn yn gwestiwn hygyrch iawn. Dyma'r cwestiwn â'r ffactor hygyrchedd uchaf o 84.7% gan fod llawer o ymgeiswyr wedi cyflawni marciau llawn. Roedd yr ymgeiswyr hynny oedd heb gael marciau llawn naill ai heb gynnwys yr arian cyfred yn eu hateb neu ddim wedi adio gwerth yr holl ddefnyddiau crai a ddefnyddiwyd yn gywir. Mae'n werth nodi bod gadael allan arwydd £ yn digwydd yn rhy aml ar safon UG. Cafodd y gwall hwn ei gosbi.
- (b)** Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn siomedig, gan arwain at farc cymedrig isel o 0.6 a'r ffactor hygyrchedd isaf o 28.4%. Roedd nifer sylweddol o ymgeiswyr yn gallu diffinio ychwanegu gwerth ac elw ond dim ond yr ymgeiswyr cryfaf oedd yn gallu amlinellu'r gwahaniaeth rhwng y ddau.
- Cw.3 (a)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi streic fel enghraifft o weithredu diwydiannol. Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf, fodd bynnag, oedd yn gallu rhoi enghreifftiau eraill o weithredu diwydiannol fel gweithio i reol, gweithio'n araf a gwahardd goramser. Arweiniodd hyn at farc cymedr o 1.5 ar gyfer y cwestiwn hwn.
- (b)** Rhoddodd bron pob ymgeisydd gynnig ar y cwestiwn hwn gyda marc cymedrig o 2.4. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi nodi gweithlu heb gymhelliant fel rheswm dros y gostyngiad mewn cynhyrchedd. Roedd rhai o'r ymgeiswyr gwannaf wedi ailadrodd cyflog gwael yn arwain at ddiffyg cymhelliant fel rheswm arall dros y gostyngiad mewn cynhyrchedd, ni roddwyd marciau am hyn.
- (c)** Atebodd 97.5% o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn ac roedd yr ymgeiswyr hynny a strwythurodd eu hatebion yn dda wedi perfformio'n well yn gyffredinol. Dangosodd nifer sylweddol o ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o rôl undebau llafur ac roedden nhw'n gallu cyflawni Band 1 ar gyfer AA3 ac AA4 gan fod buddion a phroblemau aelodaeth undeb llafur yn cael eu hystyried o safbwynt y gweithwyr yn bennaf. Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf oedd wedi ystyried effaith aelodaeth undeb llafur ar weithwyr a chyflogwyr.
- (ch)** Yn gyffredinol, roedd yr atebion i'r dasg hon yn siomedig, gan arwain at farc cymedrig isel o 2.3. Yn rhyfedd, dewisodd mwy nag 16% o'r garfan beidio â rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn o gwbl gan ddangos diffyg adolygu ACAS wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Go brin oedd yr ymgeiswyr oedd yn gwybod ystyr ACAS (Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu) ac, o ganlyniad, roedd ymgeiswyr yn dueddol o esbonio rôl ACAS mewn modd cyffredinol yn hytrach nag yn benodol.
- (d)** Y marc cymedrig ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 5.6. Roedd llawer gormod o ymgeiswyr heb gymhwyso eu hateb at y sefyllfa oedd yn wynebu'r busnes yn y cwestiwn ac arweiniodd hynny at y marc cymedrig isel hwn. Roedd y rheini a gyfeiriodd at y testun yn dueddol o ennill marciau uwch. Er bod rhanddeiliaid niferus wedi cael eu nodi a'r effaith arnyn nhw wedi cael ei dadansoddi'n effeithiol, roedd llawer gormod o atebion wedi canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar bethau negatiff y codiad cyflog ac wedi colli marciau gwerthuso (AA4) o ganlyniad.

- Cw.4 (a)** Gofynnodd y cwestiwn hwn am ddiffinio defnyddio capasiti/gallu. Yn gyffredinol roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn wan oherwydd diffyg dysgu diffiniadau gan ymgeiswyr. O ganlyniad cafodd y cwestiwn hwn farc cymedrig o 0.4. Nododd nifer sylweddol o ymgeiswyr fod defnyddio capasiti/gallu yn cyfeirio at y defnydd mae busnes yn ei wneud o'r lle sydd ganddo, oedd yn anghywir.
- (b)** Dewisodd bron 6% o'r garfan beidio â rhoi cynnig ar y cwestiwn gan ddangos diffyg hyder mewn sgiliau rhifiadol yn enwedig gyda'r ymgeiswyr gwannaf. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi gallu cyfrifo'n gywir gyda marc cymedrig o 1.3 ar gyfer y cwestiwn.
- (c)** Yn gyffredinol roedd ymgeiswyr yn gallu nodi sawl un o asedau'r busnes e.e. agoswydd at y traeth syrffio, pwll nofio newydd wedi'i wresogi, canolfan adloniant a thŷ bwyta o'r safon uchaf. Felly roedd y cymhwyso (AA2) yn rhagorol yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd esbonio marchnata wedi'i arwain gan asedau yn wan yn gyffredinol gyda nifer o ymgeiswyr yn ailadrodd y term 'asedau' fel rhan o'r esboniad heb arddangos dealltwriaeth. Arweiniodd hyn at farc cymedrig isel o 1.7. Roedd yr ymgeiswyr cryf yn gallu esbonio'n llawn y term marchnata wedi'i arwain gan asedau.
- (ch)** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cael y cwestiwn hwn yn hygyrch ac yn gallu rhoi enghreifftiau perthnasol o dechnoleg newydd oedd yn briodol i'r diwydiant twristiaeth. Y dewisiadau mwyaf poblogaidd o dechnoleg newydd oedd presenoldeb ar y we a chyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd ymgeiswyr gwannach wedi cyfeirio at fathau amhriodol o dechnoleg fel *CAD*, *CAM* a roboteg, ni roddwyd marciau am hyn. Roedd y cymhwyso at y diwydiant twristiaeth yn dda yn gyffredinol.
- (d)** Cafodd nifer o ymgeiswyr drafferth yn eu dull o drin y cwestiwn hwn gan arwain at ffactor hygyrchedd o 50.6% ar gyfer y cwestiwn. Dangosodd yr ymgeiswyr cryfaf ddealltwriaeth o hyrwyddo uwchlaw'r llinell ac islaw'r llinell oedd yn arfer da. Roedd yr esbonio o bwysigrwydd gweithredu strategaeth hyrwyddo gadarn (AA3) yn dda ond roedd y gwerthuso (AA4) yn wannach. Gwerthusodd yr ymgeiswyr cryfaf yr effaith gallai amrywiaeth o ffactorau ei chael ar lwyddiant y busnes, yn arbennig elfennau eraill y cymysgedd marchnata. Amlinellodd yr ymgeiswyr gwannaf y problemau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo oedd yn werthuso cyfyngedig.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Roedd cryn dipyn o dystiolaeth bod nifer sylweddol o ymgeiswyr â diffyg sgiliau rhifiadol. Rhaid i ymgeiswyr fynd â chyfrifiannell i mewn i'r arholiad i osgoi anawsterau wrth gyfrifo canrannau. Hefyd, roedd diffyg manwl gywirdeb yn amlwg wrth ymateb i dasgau rhifiadol a byddai'n gall i ymgeiswyr ddangos y gwaith cyfrifo yn eu holl gyfrifiadau.
- Mae ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn destun pryder. Roedd rhai sgriptiau prin yn ddarllenadwy a dylai canolfannau ystyried copi-wyr a chyfleusterau prosesu geiriau ar gyfer ymgeiswyr sydd â phroblemau llawysgrifen.

- I sicrhau marciau gwybodaeth, rhaid i ymgeiswyr adolygu a dysgu diffiniadau yn llawn. Roedd y diffyg dysgu diffiniadau yn amlwg yn y cwestiynau ar stoc clustogi/byffer, gweithredu diwydiannol, ACAS, defnyddio capacity/gallu a marchnata wedi'i arwain gan asedau.
- Rhaid i ymgeiswyr ddarllen a defnyddio data sy'n cael eu darparu yn y papur arholiad gan eu bod yn cael eu darparu i helpu ymgeiswyr i lunio eu hatebion. Rhaid i ymgeiswyr hefyd sicrhau eu bod nhw'n darllen y cwestiynau'n ofalus er mwyn cynnig atebion perthnasol ac ystyrlon. Mae hyn yn arbennig o wir am y cwestiynau gwerthuso hirach.

BUSNES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 3: DADANSODDI BUSNES A STRATEGAETH FUSNES

Sylwadau Cyffredinol

Roedd y papur hwn ychydig yn fwy hygyrch na 2018, gyda'r cymedr yn cynyddu o 42.2 yn 2018 i 42.7 yn 2019. Mae'n debyg bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi defnyddio amser yr arholiad yn effeithiol ac wedi gallu neilltuo digon o amser i bob cwestiwn, gyda chynnig yn cael ei roi ar rhwng 98.1% a 99.6% o bob cwestiwn. Lle na chafodd cwestiynau eu hateb, roedd yn aml yn ganlyniad i wybodaeth gyfyngedig o'r cynnwys yn hytrach na diffyg amser.

Ychydig iawn o sgriptiau neu rannau o sgriptiau oedd yn annarllenadwy, gan ddangos bod ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn dda. Roedd enghreifftiau o sgriptiau lle cyflawnodd ymgeiswyr y safon uchaf, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o amrywiaeth o gynnwys y fanyleb a sgiliau rhagorol gan gynnwys cymhwys, dadansoddi a gwerthuso. Dangoswyd gwybodaeth dda o'r pwnc (AA1) trwy'r papur i gyd, yn enwedig yng Nghwestiwn 6 - Gwerthuso Buddsoddiad - Gwerth Presennol Net, oedd y cwestiwn a atebwyd orau ar y papur, gyda sgôr gymedrig o 10 allan o 16. Y meysydd roedd ymgeiswyr, mae'n debyg, yn eu cael yn fwyaf trafferthus oedd dibrisiant a phwrpas/defnyddio datganiadau cenhadaeth. Yn gyffredinol defnyddiodd ymgeiswyr y deunydd ysgogi a ddarparwyd lle roedd angen hynny, yn enwedig yng Nghwestiwn 4, Cwestiwn 5 a Chwestiwn 6. Roedd atebion gwannach yn dueddol o ailadrodd/dyfynnu y deunydd ysgogi, ond roedd atebion cryfach yn gallu darparu asesiadau a dwyn i mewn gwybodaeth o gyd-destun ehangach.

Dylid nodi nad oedd rhai ymgeiswyr wedi dangos dadansoddi da/rhagorol drwy ddatblygu eu pwyntiau yn dda yn ddadleuon strwythuredig, ac roedd hynny'n ei gwneud yn anodd sgorio marciau uchel ar rai cwestiynau, yn arbennig o amlwg yng Nghwestiwn 3 a Chwestiwn 7. Roedd yr ymgeiswyr gorau yn gallu rhoi dadleuon manwl a chytbwys oedd wedi'u strwythuro'n dda, ac yn gallu dehongli gofynion y cwestiwn yn dda drwy edrych ar frawddegau'r cwestiwn a'r geiriau gorchymyn a ddefnyddiwyd. Roedd tystiolaeth o atebion unochrog gyda gwerthuso cyfyngedig, ac roedd hynny'n wir gyfyngu ar y marciau ar gyfer y cwestiynau hyn (yn enwedig Cwestiwn 3, Cwestiwn 5 a Chwestiwn 7).

Roedd sgiliau meintiol yn gadarn ar y papur, a dangoswyd hynny'n arbennig drwy Gwestiynau 2 a 6. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi cofio mynegi eu hatebion yn y fformat rhifiadol cywir a dangos eu gwaith cyfrifo.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Cw.1 (a) Roedd nifer o ymgeiswyr a gyflawnodd farciau llawn ar y cwestiwn hwn. Yr eithriadau oedd pan oedd ymgeiswyr wedi camgyfrifo drwy ddefnyddio'r nifer anghywir o flynyddoedd ar gyfer 'Oes Ddisgwyliedig' neu gydag ychydig iawn heb ddangos dim dealltwriaeth o'r fformiwla ar gyfer cyfrifo dibrisiant.

- (b) Atebodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda, gyda rhai yn ennill marciau llawn. Roedd y rheini a gyflawnodd safonau uchel yn gallu dangos lefelau da o wybodaeth drwy nodi ychydig o resymau pam mae dibrisiant yn bwysig, er enghraifft, 'i roi gwir werth ased' neu 'i gydymuffurfio â'r gyfraith'. Roedd ymgeiswyr gwannach wedi trafod llif arian a chost dibrisiant ond wnaethon nhw ddim dangos dealltwriaeth gywir. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu cyfeirio at y ffigurau a gyflwynwyd ar gyfer AA2 cyfyngedig, ond roedd ymgeiswyr cryfach yn gallu cymryd hyn ymhellach a'i drafod a'i ddefnyddio i gyfiawnhau'r rhesymau a roddwyd ar gyfer dadansoddi.

Yn gyffredinol, hwn oedd y cwestiwn mwyafrif heriol ond un i ymgeiswyr, gyda ffactor hygyrchedd o 51.2 a marc cymedrig o 5.1 allan o 10.

- Cw.2 (a)** Roedd atebion cymysg i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu ennill marciau drwy nodi'r fformiwla ar gyfer elastigedd incwm, gyda'r mwyafrif yn nodi'r data cywir a chyfrifo'n gywir y newid canrannol ym maint y galw ac mewn incwm. Yn anffodus, collodd rhai ymgeiswyr farciau drwy dalgrynnu eu hateb terfynol yn anghywir neu drwy awgrymu bod yr ateb terfynol yn ganran, e.e. yn rhoi'r ateb fel 1.66 neu 1.67%. Roedd yna ymgeiswyr nad oeddent yn gwybod dim am y fformiwla ac ni chwason nhw unrhyw farciau.
- (b) Arddangosodd rhai ymgeiswyr wybodaeth gyfyngedig a dadansoddi cyfyngedig ar y cwestiwn hwn a dim ond disgrifio y byddai cynnydd mewn incwm yn arwain at gynnydd yn y galw am nwyddau normal/moethus. Roedd ymgeiswyr sgoriodd yn dda ar y cwestiwn hwn wedi cymryd hyn ymhellach drwy ddiffinio galw elastig a thrafod yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar dderbyniadau, cynllunio lefelau stoc neu staffio. Doedd cymhwysu ddim yn ofynnol ond gallai ymgeiswyr gyflawni AA3 drwy gyfiawnhau'r rhesymau pam byddai gwneuthurwyr fel gwneuthurwyr ceir yn defnyddio elastigedd incwm, er enghraifft, yn cynllunio lefelau cynhyrchu. Dylid nodi y defnyddiwyd *OFR* (Rheol ei Ffigur ei Hun) ar y cwestiwn hwn, ac felly os anelastig oedd ateb ymgeiswyr i Gwestiwn 2(a), byddai dadansoddi o amgylch hyn yn cael ei dderbyn.
- Cw.3** Gyda ffactor hygyrchedd o 55.0, roedd hwn yn gwestiwn hygyrch i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr. Roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu nodi buddion a/neu anfanteision twf organig a thwf allanol. Felly, roedd llawer o ymgeiswyr yn gallu cyrchu Band 2 ar gyfer AA1. Gydag astudiaeth achos helaeth, roedd bron pob ymgeisydd yn gallu ennill marciau AA2 ond mewn nifer o achosion, roedd cymhwysu'n gyfyngedig gyda data'n cael eu rhestru yn unig heb gael eu defnyddio'n effeithiol. Er mwyn cyflawni'r bandiau uwch ar gyfer AA3 ac AA4, roedd disgwyl i ymgeiswyr asesu twf organig a hefyd twf allanol. Yn y mwyafrif o achosion, roedd ymgeiswyr yn gallu cyrchu o leiaf Band 2 ar gyfer AA3, gyda dilyniant da o ddadleuon yn cael ei ddarparu i arddangos effeithiau'r ddau fath o dwf. Fodd bynnag, roedd yna ymgeiswyr oedd dim ond wedi rhestru pwyntiau ar gyfer y ddau neu ddarparu dadl unochrog, ac felly arhoson nhw ym Mand 1 ar gyfer AA3 ac AA4. Roedd bron pob ymgeisydd yn gallu darparu gwerthuso ond i raddau amrywiol o lwyddiant. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn gallu dwyn ynghyd yr holl ddadleuon i ddarparu gwerthusiadau cytbwys gydag asesiadau i gefnogi eu gwerthuso.

- Cw.4 (a)** Yn gyffredinol, atebwyd hwn yn dda. gyda llawer o ymgeiswyr yn ennill pob un o'r 3 marc. Doedd rhai ymgeiswyr ddim wedi mynegi'r ateb terfynol yn y fformat cywir: x: 1 a doedd eraill ddim wedi talgrynnu'n gywir i 0.15:1 ac yn hytrach wedi talgrynnu i 0.14:1, gydag ychydig o ymgeiswyr yn mynegi'r ateb fel %.
- (b)** Yn gyffredinol roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn wannach na'r cwestiwn blaenorol, gyda llai o ymgeiswyr yn gallu nodi cydrannau cyfrifiad yr adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd (*ROCE*). Roedd y rheini gafodd farc o 0 naill ai heb wybod dim am y fformiwla neu heb ddefnyddio'r holl gydrannau ar gyfer cyfalaf a ddefnyddiwyd, sef cronfeydd cyfranddalwyr + rhwymedigaethau tymor hir. Fodd bynnag, roedd nifer mawr o ymgeiswyr oedd wedi darparu'r fformiwla'n gywir a nodi'r data cywir o'r senario i gyfrifo'n gywir yr adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd fel 16.48%. Yn anffodus, doedd rhai ymgeiswyr ddim wedi ennill marciau llawn oherwydd iddyn nhw roi'r ateb mewn fformat anghywir, er enghraifft; peidio â chynnwys yr arwydd % neu dalgrynnu'n anghywir fel 16.47%.
- (c)** Roedd yn dda gweld bod yr ymgeiswyr gafodd Cw.4 (a) a Cw.4 (b) yn her yn dal i allu ennill marciau ar y cwestiwn hwn drwy ddadansoddi'r data o'r astudiaeth achos ac yn y fantolen. Yn y gorffennol, ni fyddai'r ymgeiswyr hynny wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn. Roedd safon gyffredinol yr atebion yn dda. Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr yn gallu nodi'r gymhareb ddelfrydol fel 0.8:1 i 1.1:1 ac wedi awgrymu'r rhesymau pam i ennill marciau AA3. Roedd atebion cryfach hefyd wedi defnyddio'r cyfrifiadau ar gyfer y gymhareb prawf asid a'r adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd i gymharu'r ddwy flynedd, gan awgrymu a oedd y gymhareb a'r adenillion wedi gwella neu waethygu i roi asesiad cryfach. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr heb ddangos dealltwriaeth glir o beth oedd y gymhareb prawf asid a'r adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn ei fesur, ac felly wedi ennill marciau cyfyngedig ar gyfer AA3 ac AA4. Fel gyda Cw.2(b) defnyddiwyd *OFR* ar y cwestiwn hwn, ac felly os oedd ymgeiswyr wedi cyfrifo'r gymhareb prawf asid a/neu *ROCE* yn anghywir byddai dadansoddi a gwerthuso o amgylch y cyfrifiadau hyn wedi cael eu dderbyn.
- Cw.5** Roedd hwn yn gwestiwn hygyrch gyda maint helaeth o ddata wedi'i ddarparu yn yr astudiaeth achos am y project *HS2*. Y marc cymedrig oedd 5.2 allan o 10. Roed ymgeiswyr cryfach wedi ymdrin â'r cwestiwn drwy drafod buddion ac anfanteision defnyddio dadansoddiad cost a budd, ac yna cefnogi hyn â data o'r cyd-destun. Er enghraifft, dangos gwybodaeth glir o beth yw dadansoddiad cost a budd, fel sylweddoli bod gwerth ariannol yn cael ei roi ar yr holl faterion ond bod rhai materion yn anodd eu meintioli mewn termau ariannol, fel difrod i gynefin naturiol. Yn anffodus, roedd rhai ymgeiswyr wedi ymdrin â'r cwestiwn drwy gynnal dadansoddiad cost a budd o'r project *HS2*. Yn aml arweiniodd hyn at ateb gwan ac nid oedd mewn gwirionedd yn ateb y cwestiwn, gan amlaf yn cyrraedd Band 1 yn unig ac o bosibl Band 2 ar gyfer AA2. Roedd casgliadau rhai ymgeiswyr yn canolbwyntio gormod ar a ddylai'r project *HS2* fynd ymlaen neu beidio, yn hytrach nag a fyddai dadansoddiad cost a budd yn ddefnyddiol wrth wneud y penderfyniadau hyn.
- Cw.6 (a)** Roedd y gwerth presennol net wedi cael ei gyfrifo'n dda gan ymgeiswyr oedd yn amlwg wedi paratoi ar gyfer yr arholiad, ac enillodd llawer o atebion farciau llawn. Yn anffodus, gwnaeth rhai ymgeiswyr gamgymeriadau yn cyfrifo'r gwerth presennol blynyddol a arweiniodd at werth presennol net anghywir.

Fodd bynnag, byddai *OFR* yn weithredol yn y sefyllfaoedd hyn ac felly dim ond 1 neu 2 farc a gollwyd. Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid mynegi'r ffigurau terfynol, yn yr achos hwn y gwerth presennol net, yn y fformat cywir, yn yr achos hwn gydag arwydd £. Os na, bydd marciau AA2 yn cael eu didynnu.

- (b) Yn gyffredinol, atebwyd y cwestiwn hwn yn arbennig o dda, gyda nifer sylweddol o ymgeiswyr yn ennill marciau llawn ac ychydig iawn o ymgeiswyr heb ddangos gwybodaeth o ffactorau ansoddol. Roedd materion allweddol a nodwyd yn cynnwys yr effaith ar staff, cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Defnyddiodd yr ymgeiswyr cryfaf y data'n dda iawn i roi dadansoddiad manwl o'r effaith y byddai'r ddau beiriant yn ei chael ar gwmni Nigel Morgan. Roedd y rheini oedd heb gyrraedd y bandiau uchaf fel arfer wedi ennill 5/6 marc ond wedi methu cael Band 2 ar gyfer AA2, AA3 a/neu AA4 drwy ddarparu rhestr o ffactorau ansoddol sy'n effeithio ar y cwmni neu drwy roi atebion anghybwys.

Yn gyffredinol, Cwestiwn 6 oedd y mwyaf hygyrch o'r holl gwestiynau ar y papur, gyda ffactor hygyrchedd o 62.2 a marc cymedrig o 10 allan o 16.

- Cw.7** Mae'n debyg mai'r cwestiwn olaf ar y papur oedd y mwyaf heriol. Mae'n debyg bod y mwyafrif o'r ymgeiswyr ar goll ynghylch y cysyniad o beth yw datganiad cenhadaeth a buddion ac anfanteision cael un. Roedd hyn yn amlwg yn y ffactor hygyrchedd o 43.5 a chymedr o 4.3 allan o 10, yn profi mai dyma'r cwestiwn mwyaf heriol ar y papur. Roed ymgeiswyr gwannach wedi colli ffocws ar y cwestiwn yn fuan ac yn ysgrifennu atebion hir nad oeddent yn berthnasol i'r topig. Roedd ymgeiswyr cryfach wedi trafod buddion datganiad cenhadaeth, a rhannau penodol ohono a sut y gellir ei ddefnyddio i helpu gyda chynllunio strategol a/neu i sicrhau bod pob rhanddeiliad yn canolbwyntio ar y pwrpas. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi gwneud defnydd da o'r astudiaeth achos a nodi rhannau allweddol o'r datganiad cenhadaeth a gwerthoedd oedd yn gysylltiedig â grwpiau penodol o randdeiliaid. Roedd yr atebion gorau wedi cloi gydag asesiad wedi'i gefnogi o pam byddai (neu pam na fyddai) datganiad cenhadaeth yn ddefnyddiol i *WHSmith ccc*.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae angen i ymgeiswyr ofalu i osgoi labelu anghywir a thalgrynnu anghywir wrth gyfrifo oherwydd bod hyn yn effeithio'n negyddol ar farciau.
- Mae ymgeiswyr yn defnyddio'r astudiaethau achos yn fwy nag o'r blaen **ond** rhaid iddyn wybod bod cymhwyso'n cynnwys defnyddio'r data i ddadansoddi a dydy gwerthuso **ddim** yn golygu rhestru data pwysig o'r astudiaeth achos.

BUSNES

Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

Uwch Gyfrannol/Uwch

UNED 4: BUSNES MEWN BYD SY'N NEWID

Sylwadau Cyffredinol

Roedd y papur synoptig hwn yn gofyn bod ymgeiswyr yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o feysydd cynnwys yn y fanyleb. Er enghraifft, Cwestiwn 1 (a) yn asesu gwybodaeth a gafwyd o Uned 2. Er bod hyn yn her i ymgeiswyr, trwy'r papur i gyd roedd yn dda darllen atebion gan ymgeiswyr yn dangos eu bod nhw'n aml yn gallu tynnu gwybodaeth o amrywiaeth o feysydd topigau i gynhyrchu rhai atebion o ansawdd uchel. Ysgrifennodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr mewn paragraffau clir wedi'u trefnu'n dda oedd wedi galluogi arholwyr i ddilyn dadl yr ymgeisydd yn effeithiol.

Roedd gwybodaeth (AA1) a dadansoddi (AA2) yn aml wedi'u mynegi'n dda a'u trin yn dda gan ymgeiswyr, ond weithiau roedd cymhwys (AA3) a gwerthuso (AA4) wedi'u gadael allan pan oedd gofyn amdany'n nhw. Achosodd hyn i rai ymgeiswyr gael nifer cyfyngedig o farciau gan nad oedden nhw'n cynhyrchu marciau'n gyson o bob un o'r pedwar sgil. O ran geiriau gorchymyn, roedd yn amlwg bod rhai canolfannau wedi esbonio'n glir y mathau o atebion oedd yn ofynnol o rai geiriau yn y cwestiwn fel 'esboniwch', 'aseswch' a 'trafodwch', ac o ganlyniad wedi rhoi i ymgeiswyr y gallu i berfformio'n dda iawn yn yr arholiad hwn. I'r gwrthwyneb, yn aml roedd rhai ymgeiswyr yn disgrifio materion yn hytrach nag esbonio a gwerthuso eu goblygiadau ar gyfer busnes. O ganlyniad, ni lwyddodd yr ymgeiswyr hynny i sgorio'n uchel ar AA3 ac AA4.

Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

Adran A

Yn y rhan hon o'r arholiad, roedd ymgeiswyr wedi cael astudiaeth achos estynedig oedd yn nodi symudiadau *Marks and Spencer ccc (M&S)* yn y sector adwerthu. Roedd ymgeiswyr wedi ymateb yn dda i wybodaeth yr astudiaeth achos ac roedd llawer o ymgeiswyr wedi cynhyrchu pwyntiau manwl wedi'u llunio'n dda.

Defnyddiodd ymgeiswyr eu hamser yn effeithiol yn ystod yr arholiad gyda bron pob un o'r ymgeiswyr yn rhoi cynnig ar bob un o'r cwestiynau oedd yn ofynnol. Yn aml roedd ymgeiswyr wedi neilltuo maint priodol o amser i bob cwestiwn yn unol â'r marciau oedd ar gael. Fodd bynnag, treuliodd rhai ymgeiswyr ormod o amser ar rai cwestiynau gydag atebion manwl hir ac roedd cwestiynau eraill, gyda mwy o farciau ar gael, yn cael eu gadael allan yn gyfan gwbl neu eu hateb yn fyr - gyda phwyntiau wedi'u rhestru yn hytrach na dadansoddi a gwerthuso manwl.

Ar y cyfan roedd y gyfradd gynnig ar gyfer pob cwestiwn yn Adran A yn rhagorol: 1 (b) 99.7%, 1 (c) 99.3% ac 1 (ch) 98.2%. Fodd bynnag, roedd ychydig yn llai ar gyfer 1 (a) 96.9% ac 1 (d) 95.7%.

Roedd hyn yn dangos lefel yr her yn y ddau gwestiwn a ofynnwyd, gyda Chwestiwn 1 (a) â'r ffactor hygyrchedd isaf o 39.5 a Chwestiwn 1 (d) â ffactor hygyrchedd o 46.0 - yn amlwg dau o'r cwestiynau mwyaf heriol yn Adran A.

Cw.1 (a) Gofynnodd y cwestiwn hwn i ymgeiswyr nodi ystyr cynllunio'r gweithlu ac esbonio ei bwysigrwydd i M&S. Er bod cynllunio'r gweithlu wedi'i gynnwys yn uned 2, dylid cofio bod uned 4 yn synoptig ac yn gallu cynnwys cwestiynau o unrhyw ran o'r fanyleb. Roedd fel petai nifer mawr o ymgeiswyr wedi camddeall gofynion y cwestiwn hwn neu roedd ganddyn nhw wybodaeth gyfyngedig neu ddim gwybodaeth o beth yw cynllun gweithlu. Yn y sefyllfa hon, enillodd rhai ymgeiswyr farciau is drwy nodi materion allweddol oedd yn gysylltiedig â'r astudiaeth achos a darparu lefelau cyfngedig o wybodaeth a dadansoddi neu ni enillodd ymgeiswyr unrhyw farciau oherwydd iddyn nhw roi sylwadau am bob math gwahanol o gynlluniau ar wahân i gynllun gweithlu, gan gynnwys y cynllun amgylcheddol neu'r cynllun ariannol. Roedd yr atebion gorau wedi diffinio cynllun gweithlu a mynd ymlaen i esbonio ei bwysigrwydd mewn perthynas â busnes adwerthu, er enghraifft, gan esbonio'r angen i ddarparu ar gyfer goralw o ganlyniad i werthiant tymhorol a/neu yr angen i nodi staffio gwargedol a chynllunio ar gyfer diswyddiadau. Yn gyffredinol doedd yr atebion i'r cwestiwn hwn ddim cystal ag y gellid ei disgwyl a gwelwyd mai hwn oedd y cwestiwn mwyaf heriol ar y papur. Canlyniad hyn oedd marc crai cyfartalog isel yn awgrymu bod y cwestiwn wedi gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr gwannach ac ymgeiswyr cryfach.

(b) Gyda ffactor hygyrchedd o 61.0 hwn oedd y cwestiwn mwyaf hygyrch ar y papur arholiad. Gwnaeth ymgeiswyr ddefnydd effeithiol o ddata yn yr astudiaeth achos i arddangos a chymhwyso gwybodaeth o ddull moesegol. Roedd rhywfaint o ddrysu gyda goblygiadau cyfreithiol fel isafswm cyflog ond ar y cyfan canolbwyntiodd atebion ar weithrediadau moesegol fel technegau arbed egni neu arferion Masnach Deg. Roedd yr atebion gorau wedi defnyddio'r data i ddarparu dadansoddiad manwl o fuddion ac anfanteision dull moesegol mewn perthynas â chost, delwedd brand a referniw, fyddai wedyn yn effeithio ar broffidioldeb. Heb ddadl gytbwys, ni ellid cyflawni Band 3 ar gyfer gwerthuso.

Y marc cymedrig oedd 6.1 allan o 10, ac felly roedd y cwestiwn hwn yn ffynhonnell dda o farciau i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr. Fodd bynnag, oherwydd ei fod yn hygyrch, roedd atebion o bryd i'w gilydd yn rhy hir a gallai hynny fod wedi cyfyngu ar sgorio mewn rhannau eraill o'r papur.

(c) Roedd y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar effaith newid mewn strategaeth ar randdeiliaid M&S. Rhoddwyd cynnig ar y cwestiwn hwn gan bron pob ymgeisydd gyda graddau amrywiol o lwyddiant. Roedd rhai atebion rhagorol oedd wedi canolbwyntio eu dadansoddi a'u gwerthuso ar ddim mwy na thri rhanddeiliad, gan asesu effaith y newid mewn strategaeth ar gost a phroffidioldeb, dewis cwsmeriaid a gwasanaeth i gwsmeriaid, prynu stoc ac adnoddau dynol. Gan ddefnyddio'r rhain, roedd yr ymgeiswyr wedyn wedi trafod meysydd fel yr effaith ar fuddrannau cyfranddalwyr, y gwell gwasanaeth i gwsmeriaid ar gyfer cwsmeriaid, y cynnydd/gostyngiad mewn archebion ar gyfer cyflenwyr neu gymhelliant gweithwyr drwy gynnydd mewn sicrwydd swydd a/neu hyfforddiant.

Roedd ychydig o ymgeiswyr wedi dangos gwybodaeth dda o randdeiliaid, ond heb wneud dim mwy na rhestru effaith y newid mewn strategaeth ar y rhanddeiliaid hyn ac felly cyflawni Band 1 ar gyfer AA2, AA3 ac AA4.

Roedd y cwestiwn yn gofyn am werthusiad cytbwys ac roedd hynny wedi cyfyngu nifer mawr o ymgeiswyr i'r marciau lefel is ar gyfer AA4. Gydag AA4 yn cael hanner y marciau oedd ar gael ar gyfer y cwestiwn hwn, efallai mai dyma'r rheswm pam mai 5.8 allan o 12 oedd y marc cymedrig.

- (ch) Gofynnodd y cwestiwn hwn i ymgeiswyr asesu effaith ffactorau technolegol a chymdeithasol ar weithrediadau *M&S*. Roedd y cwestiwn hwn yn hygyrch i lawer o ymgeiswyr, oedd wedi arddangos dealltwriaeth dda o'r mathau o dechnoleg newydd oedd ar gael i *M&S* a nodi ffactorau cymdeithasol oedd yn effeithio ar eu gweithrediadau. Roedd maint helaeth o ddata ar gael yn yr astudiaeth achos ac roedd yr atebion gorau wedi gwneud defnydd da o'r wybodaeth. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi arddangos gwybodaeth a'i chymhwyso'n dda at *M&S*, roedd llawer o atebion â diffyg dadansoddi a gwerthuso manwl. Roedd ateb cytbwys yn ofynnol i gyflawni Band 2 ar gyfer AA4. Yn anffodus roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi canolbwyntio eu hateb ar fuddion technoleg newydd a newidiadau mewn ffactorau cymdeithasol fel ffasiwn a thueddiadau, gan eu cyfyngu nhw i Fand 1. Hefyd canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr ar dechnoleg yn unig, oedd wedi cyfyngu eu marciau i Fand 1 ar draws yr amcanion asesu. Soniodd ychydig o ymgeiswyr am dechnoleg newydd a chynhyrchu. I'r graddau bod hyn yn berthnasol i weithrediadau warws roedd hyn yn dderbyniol, ond doedd atebion a gyfeiriodd at *CAD* neu *CAM* ddim wedi cael eu hystyried yn dderbyniol.
- (d) Y ffactor hygyrchedd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 46.0, yn dangos bod hwn yn gwestiwn heriol i ymgeiswyr. Dylid nodi bod dwy elfen i'r cwestiwn hwn, roedd y rhan gyntaf yn gofyn i ymgeiswyr drafod y strategaeth a fabwysiadwyd gan *M&S* i ganolbwyntio ar fwyd a'r ail ran oedd trafod y strategaeth i dynnu allan o rai marchnadoedd rhyngwladol. Yn anffodus, canolbwyntiodd nifer mawr o ymgeiswyr ar ddim ond un rhan o'r cwestiwn, a gyfyngodd eu marciau i Fand 1 a 2. Roedd rhai atebion rhagorol oedd wedi amlygu mai bwyd oedd cynnyrch craidd *M&S* a chyfeirio at y data o werthiant cynyddol a gwerthiant dillad yn gostwng. Roedden nhw hefyd wedi nodi bod rhai marchnadoedd rhyngwladol yn gwneud colled ac y bydd y busnes yn dal i fod â marchnad fyd-eang enfawr drwy ei allfeydd masnachfrait a'r llwyfan Rhyngwrwd. Yn gyffredinol, roedd fel petai ymgeiswyr wedi colli ffocws ar y cwestiwn hwn ac roedd llawer gormod wedi ysgrifennu atebion cyfyngedig, efallai o ganlyniad i ysgrifennu gormod ar gwestiynau cynharach oedd â dyraniadau is o farciau.

Adran B

Rhoddodd yr adran hon o'r arholiad i ymgeiswyr y gallu i weithio i'w cryfderau. Dewisodd ymgeiswyr un cwestiwn o ddewis o dri opsiwn. O bryd i'w gilydd atebodd ymgeisydd fwy nag un cwestiwn. Mewn achosion o'r fath rhoddwyd i'r ymgeiswyr y marciau o'r cwestiwn cyfan gynhyrchodd y nifer mwyaf o farciau.

Roedd y cwestiynau y rhoddwyd cynnig arnynt yn Adran B wedi'u rhannu gyda tua 38% yn rhoi cynnig ar gwestiwn 2, 26% yn rhoi cynnig ar gwestiwn 3 a 33% yn rhoi cynnig ar gwestiwn 4.

Roedd rhan (a) ym mhob un o'r cwestiynau yn gofyn bod yr ymgeisydd yn cymhwyso'r ateb i senario yn y cwestiwn, gyda 4 marc wedi'u rhoi ar gyfer AA2. Gan fod Adran B, rhan (b) yn cynnig 8 marc AA3 ac 8 marc AA4, gallai hyn fod wedi bod yn rhwystr i rai ymgeiswyr rhag cyflawni marc cyfan uchel.

- Cw.2 (a)** Roedd y cwestiwn hwn yn anodd i lawer o ymgeiswyr, gyda ffactor hygyrchedd o 24.5 a marc cymedrig o 2.5 allan o 10. Roedd rhai atebion da iawn lle nododd ymgeiswyr fod busnesau fel *Odeon* a *Vue*, trwy ymchwil a datblygu, yn cyflwyno sgriniau 4D newydd neu ffyrdd newydd o archebu tocynnau a seddau sy'n rhoi mantais gymharol iddyn nhw. Yn anffodus, roedd llawer gormod o ymgeiswyr wedi ymdrin â'r cwestiwn hwn yn y ffordd anghywir drwy drafod gwahanol fathau o ymchwil marchnata a data ymchwil marchnata. Felly, roedd yn anodd dyfarnu unrhyw farciau oherwydd doedd yr ateb ddim yn ateb y cwestiwn. Mae angen i ymgeiswyr wybod nad ymchwil marchnata yw ymchwil a datblygu ac mai dim ond elfen ohono yw ymchwil, gyda llawer o ymchwil yn golygu profi cynnyrch yn hytrach na chynnal holiaduron ac arolygon.
- (b)** Eto, gyda ffactor hygyrchedd o 31.9 a marc cymedrig o 6.4 allan o 20, roedd y cwestiwn hwn yn anodd i ymgeiswyr. Canolbwyntiodd gormod o ymgeiswyr ar ymchwil marchnata yn hytrach na buddion ac anfanteision ymchwil a datblygu. Fodd bynnag, cafodd ei ateb yn well na Cwestiwn 2 (a), gyda'r gwahanol amcanion asesu yn cael eu hasesu. Roedd nifer o atebion cryf oedd yn deall yn amlwg y cysyniad o ymchwil a datblygu ac oedd â'r gallu i gyflwyno ateb cytbwys ar werth ymchwil a datblygu. Roedd ymgeiswyr cryfach yn gallu cyflawni band uchel ar gyfer AA3 o ganlyniad i ddwy neu dair dadl yn dangos cadwyn glir a manwl a chadarn o ddadl ar y ddwy ochr. Roedd llai o ymgeiswyr wedi cyflawni'r band uchaf ar gyfer AA4 o'i gymharu ag AA3, gan fod llai o ymgeiswyr wedi ystyried bod ei bwysigrwydd yn ddibynnol iawn ar y diwydiant a'r adnoddau sydd ar gael. Yn hytrach roedd llawer o ymgeiswyr wedi cynnig gwerthusiad mwy crynodol ac felly yn fwy cyffredin wedi cyflawni Band 2 isel ar gyfer AA4.

Ar y cyfan, Cwestiwn 2 oedd y mwyaf heriol yn Adran B. Yn nodweddiadol, roedd ymgeiswyr fel arfer wedi cyflawni dim marciau neu farciau Band 1 isel gan nad oedd yn amlwg eu bod nhw'n deall y gwahaniaeth rhwng ymchwil a datblygu ac ymchwil marchnata. Argymhellir bod ymgeiswyr, ar gyfer cwestiynau ar y topig hwn yn y dyfodol, yn ei gwneud yn glir ar ddechrau eu hateb eu bod nhw'n gwybod bod ymchwil a marchnata yn wahanol i ymchwil marchnata.

- Cw.3 (a)** Dylai hwn fod wedi bod yn gwestiwn hygyrch o ganlyniad i natur y cwestiwn a'r cysylltiadau â meysydd pwnc eraill. Fodd bynnag, gyda ffactor hygyrchedd o 43.4 roedd yn dipyn o her. O'r atebion cryfach, roedd yn amlwg bod ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda i ragorol o amcanion *SMART* ac roedden nhw'n gallu cymhwyso'r wybodaeth hon yn weddol dda at siop *pizza* tecawê sy'n cychwyn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r ymgeiswyr cryfach y brif broblem oedd mai dim ond lleiafrif o'r ymgeiswyr roddodd ddiffiniadau o nodau ac amcanion a llai byth ddefnyddiodd yr amcanion *SMART* i ddangos sut byddai'r rhain yn helpu siop *pizza* tecawê sy'n cychwyn i gyflawni ei nod - roedd hyn felly yn eu rhwystro nhw rhag ennill y marciau uchaf ym Mand 3 ar gyfer AA1 a Band 2 ar gyfer AA2. Gyda'r atebion gwannach, yn aml roedd anghywirdeb yn y diffinio o nodau ac amcanion ac yn y nodi o gydrannau allweddol amcan *SMART*, ac yn aml dim ond un amcan *SMART* a luniwyd.

- (b) Arddangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda o nodau ac amcanion, yn arbennig pwysigrwydd proffidioldeb. Roedd yr atebion gorau wedi diffinio'r term amcan a darparu dadleuon cytbwys o blaid ac yn erbyn o leif tri amcan yn cael eu hystyried y pwysicaf. Er enghraifft, dadleuon cadarn o blaid proffidioldeb oedd y ffaith ei fod yn fesur o lwyddiant ac yn ffynhonnell o gyllid yn ogystal â denu cyfranddalwyr.

Gyda gwrthddadleuon yn awgrymu nad yw pob busnes yn ceisio elw, fel y rheini yn y sector cyhoeddus a mentrau cymdeithasol. Byddai'r ymgeiswyr hyn wedyn yn trafod o leiaf dau amcan arall fel cynyddu'r gyfran o'r farchnad neu amcanion amgylcheddol, fyddai'n effeithio ar elw ond yn dal i fod yn arwydd o lwyddiant ac yn helpu proffidioldeb yn y tymor hir. Roedd atebion gwannach yn dueddol o fod yn hir iawn ond heb fawr ddim sylwedd, yn aml yn canolbwyntio ar amrywiaeth eang o amcanion ond yn darparu dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig. Yn gyffredinol, roedd y cwestiwn hwn yn hygyrch i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr gyda sgôr gymedrig o 10 allan o 20.

- Cw.4 (a)** Dyma'r mwyaf hygyrch o'r holl gwestiynau rhan (a) yn Adran B, gyda ffactor hygyrchedd o 51.5. Defnyddiodd llawer o ymgeiswyr yr acronym *SPICED* i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o effaith newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid ar fusnesau sy'n allforio. Roedd y rheini a aeth ymhellach i arddangos gwybodaeth o bunt wan (*WIDEC*) yn gallu dangos dealltwriaeth ragorol a chyflawni Band 3 ar gyfer AA1. Roedd cyflawni marciau AA2 yn fwy o her, roedd yr atebion gorau wedi gwneud sylwadau am y rhwyddineb neu'r anshawster y byddai gwneuthurwyr yn ei wynebu wrth ddenu cwsmeriaid mewn marchnadoedd tramor o ganlyniad i'r newidiadau yn y pris. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf hefyd wedi cyfeirio at fathau gwahanol o nwyddau fel nwyddau pris elastig/anelastig, normal a moeth. Fodd bynnag, roedd ymgeiswyr gwannach wedi cael y lefel hon o derminoleg a defnydd o gysyniadau yn her. Er hynny, dyma'r cwestiwn sgoriodd uchaf o'r holl gwestiynau rhan (a), gyda chymedr o 5.2 ac felly roedd yn ffynhonnell dda o farciau i lawer o ymgeiswyr.

- Cw.4 (b)** Fel gyda rhan (a), roedd hwn yn ffynhonnell dda o farciau i lawer o ymgeiswyr, gyda sgôr gymedrig o 11.8 allan o 20. Roedd ymgeiswyr oedd yn amlwg yn deall cyfraddau cyfnewid o ran (a) yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i roi mwy o ddadansoddi a gwerthuso i ddadleuon a ddarparwyd ar gyfer pwysigrwydd cyfraddau llog. Canolbwyntiodd ymgeiswyr cryf eu dadleuon ar gyfer cyfraddau llog ar yr effaith ar fuddsoddi gan fusnesau a gwariant defnyddwyr. Roedd hyn o'i gyfuno â gwerthuso cyfraddau cyfnewid ac un ffactor economaidd arall yn aml yn ddigon i gyflawni safonau uchel iawn. Roedd atebion gwannach yn dueddol o ymdrin â phwysigrwydd cyfraddau llog, gan gyfeirio at yr effaith ar wariant busnes a/neu wariant defnyddwyr ac yna darparu dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o ffactorau economaidd eraill neu arddangos anghywirdebau wrth drafod ffactorau economaidd. Roedd ychydig o ymgeiswyr wedi rhoi atebion rhagorol ond wedi ymdrin â chyfraddau llog yn unig ac felly roedden nhw wedi'u cyfyngu o ran y marciau gawson nhw oherwydd nad oedden nhw wedi ateb y cwestiwn yn llawn. Roedd hyn yn fwy o fater o dechneg arholiad yn hytrach na gwybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau economaidd.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Dylid cyngori ymgeiswyr i ystyried yn ofalus dyraniad marciau pob cwestiwn er mwyn neilltuo digon o amser ar gyfer pob cwestiwn – roedd tystiolaeth o ymgeiswyr yn ysgrifennu atebion hir ar gyfer Cw.1 (a) a Cw. 1 (ch) ond wedyn heb adael digon o amser i ateb Cw.1 (d) yn llawn.
- Mae angen i ymgeiswyr ymarfer ateb cwestiynau fel Cw.1 (ch) a Cw. 1(d) sydd â dwy ran i'r cwestiwn – yn anffodus roedd llawer gormod o ymgeiswyr wedi ymdrin ag un rhan yn unig o'r cwestiwn ac felly cyfyngwyd ar y marciau a gafwyd.
- Mae angen i ganolfannau atgyfnerthu gydag ymgeiswyr natur synoptig y papur. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar gynnwys ar draws y cymhwyster llawn.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
Gwefan: www.cbac.co.uk